



Diweddariad TYR

Croeso i gylchlythyr Hydref 2020. Mae'r rhifyn yma'n dod â diweddariadau allweddol gan ein partneriaid ni ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd at ei gilydd, a hefyd nifer o straeon am gynnydd cadarnhaol prosiectau sy'n cael eu cyllido gan yr UE. Rydyn ni hefyd yn falch iawn o gael rhannu'r ail yn ein cyfres o ffilmiau gyda chi, ac mae'r ffilm yma'n tynnu sylw at waith ein Rhwydwaith Cystadleurwydd BBaCh a'r gyfres o brosiectau sy'n cael eu cyllido gan yr ERDF sy'n cefnogi busnesau ar draws y ranbarth; [gallwch weld y ffilm ar ein sianel YouTube](#). Os hoffech chi gymryd rhan yn ein gwaith, mae croeso i chi gysylltu â ni, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Cymerwch ofal bawb

Lisa, Amy, Natalie a Karyn.



Yn y rhifyn hwn

Diweddariad TYR

Tudalen 1

Dyfodol cyllid rhanbarthol

Tudalen 2

Dyddiad cau Erasmus+

Tudalen 2

Diweddariad WEFO

Tudalen 3

Arolwg ymgysylltu 3-SET

Tudalen 3

Perfformiad rhanbarthol

Tudalen 3

Diweddariad PRC

Tudalen 4

Tasglu'r Cymoedd

Tudalen 5

Digwyddiad rhithwir ESF

Tudalen 6

Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Tudalen 6

Galwad Interreg gaisiadau

Tudalen 7

ERDF: isadeiledd RhCT

Tudalen 7

ERDF: unedau diwydiannol Caerfili

Tudalen 8

ERDF: AgorIP

Tudalen 9

Cynlluniau buddsoddi rhanbarthol Ôl-Brexit yn symud ymlaen

Symudodd y cynlluniau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit gam ymlaen y mis hwn yn dilyn lansio [adroddiad yr OECD ar ddatblygu economaidd rhanbarthol](#) ar 17 Medi.

Mae'r adroddiad yn rhoi persbectif arferion gorau annibynnol a rhyngwladol ar ddatblygu economaidd yng Nghymru ac mae'n benllanw 18 mis o ymchwil, dadansoddi a deialog polisi sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rhanbarthol a buddsoddi cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried argymhellion yr adroddiad a bydd yn trafod ei chanfyddiadau gyda phartneriaid a rhanddeiliaid dros yr wythnosau nesaf.

Mae gan sefydliadau ledled Cymru gyfle i roi eu barn ar yr argymhellion yn adroddiad yr OECD drwy gyfres o ddigwyddiadau rhithwir rhanbarthol fydd yn cael eu cynnal rhwng 28 Medi ac 1 Hydref.

Bydd y digwyddiadau'n cynnwys cyfraniadau gan yr OECD, Llywodraeth Cymru, Bargeinion Dinesig a Thwf ac arweinwyr lleol, a byddant yn edrych ar sut y gall yr argymhellion yn yr adroddiad



hysbysu agweddau'r dyfodol tuag at ddatblygu rhanbarthol.

Bydd adroddiad annibynnol ar ganfyddiadau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar fuddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol hefyd yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf. Denodd yr ymgynghoriad ystod eang o adborth gan sefydliadau a dinasyddion, ac roedd yn ymdrin â set o gynigion ar gyfer buddsoddi cyllid newydd ar ôl i bolisi rhanbarthol yr UE yng Nghymru ddod i ben.

I gael rhagor o wybodaeth am fuddsoddi rhanbarthol yng Nghymru Ôl-Brexit, ewch i: <https://llyw.cymru/buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-ar-ol-brexit>.

Dyddiad cau ar gyfer Partneriaethau Strategol Erasmus+ Cam Allweddol 2

[Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi ail gywiriad i Ganllaw Rhaglen 2020 ac ail gywiriad i Alwad Erasmus+ 2020 am Gynigion.](#)

Mae'r cywiriad yn ymwneud â chyflwyno galwadau datganoledig newydd am Bartneriaethau Strategol mewn ymateb i COVID-19, gyda dyddiad cau o 29 Hydref 2020, 11am (amser y DU).



WEFO

Ym mis Ebrill, darparodd yr Undeb Ewropeaidd becyn o hyblygrwydd (Menter Buddsoddi Mewn Ymateb i'r Coronafeirws - CRIL) ar gyfer defnyddio Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) mewn ymateb i effeithiau economaidd Covid-19.

Mae WEFO wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir gan CRIL, drwy glustnodi hyd at £245m o gronfeydd yr UE i gefnogi ail don y Gronfa Cadernid Economaidd, gan gynnwys benthyciadau buddsoddi a wnaed gan Fanc Datblygu Cymru, a chostau'r gwasanaeth iechyd sy'n gysylltiedig â Covid-19, yn enwedig i gefnogi recriwtio staff meddygol ychwanegol a phrynu

PPE. Mae cyllid Covid-19 wedi dod yn bennaf oherwydd y newidiadau yn y gyfradd gyfnewid, ac ni fydd unrhyw effaith ar ariannu na chyflawni prosiectau presennol yr UE a ariennir gan gronfeydd strwythurol o fewn rhaglen bresennol 2014-2020.

Atgoffir rheolwyr prosiect i barhau i weithio tuag at gerrig milltir prosiect y cytunwyd arnynt a chyflwyno eu hawliadau yn brydlon. Pe byddech yn profi unrhyw effaith ar weithredu eich prosiect cronfa strwythurol o ganlyniad i COVID-19, [mae cyngor ac arweiniad wedi'i ddiweddarau ar effeithiau'r coronafeirws](#) ar gael ar y wefan, felly cofiwch ei wirio i gael yr wybodaeth ddiweddaraf. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Prosiect (PDO) yn WEFO i gael unrhyw gyngor pellach.

Arolwg ymgysylltu Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET)

Mae Wavehill yn cynnal gwerthusiad o 3-SET a'u gweithgareddau i asesu perfformiad 3-SET, effaith eu gweithgareddau a hefyd i gefnogi a hysbysu cynllunio yn y dyfodol.

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn, p'un a

ydych wedi ymgysylltu â 3-SET ai peidio.

Hoffem eich gwahodd i [gyfrannu at y gwerthusiad drwy ymateb i'r arolwg trwy'r ddolen hon](#).



Perfformiad rhanbarthol

Dyma'r prif ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer perfformiad y gweithrediadau sy'n cael eu hariannu gan ESI o fewn Rhanbarth y De-ddwyrain. Os hoffech gael rhagor o fanylion am y data, e-bostiwch ni ar sewalesret@bridgend.gov.uk.

Cronfa	Dangosydd	Ffigurau ar gyfer Rhanbarth y De Ddwyrain
ERDF	Mentrau a gafodd eu cynorthwyo	4,187
	Mentrau a gafodd eu creu	1,351
	Swyddi a gafodd eu creu	7,770
ESF	Cyfranogwyr a gafodd gymorth	111,774
	Cyfranogwyr a gafodd eu cefnogi i gyflogaeth	13,382
	Cyfranogwyr a enillodd gymwysterau	49,763
	Cyfranogwyr mewn addysg / hyfforddiant	2,998

Diweddariad PRC

Er ei bod hi'n dymor gwyliau ni fu unrhyw arafu mewn gweithgarwch ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Ymysg rhai o'r uchafbwyntiau dros fisoedd yr haf mae:

- Derbyn £25.4m am ein cais am CS Connected, prosiect pwysig o fewn y Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, o Gronfa 'Strength in Places' Ymchwil ac Arloesi yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn fwy na hanner cost y prosiect o £43.7m, mae'n hwb enfawr i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ac mae'n atgyfnerthu ein ffocws strategol ar led-ddargludyddion cyfansawdd.



- Blaendalu benthyciad o £2 filiwn i Creo Medical i ddatblygu ei dechnoleg Plasma Oer a allai fod yn arf gwerthfawr yn y frwydr yn erbyn Covid-19. Mae'r benthyciad yn rhan o ymateb CCR i'r argyfwng byd-eang a achoswyd gan y coronafeirws ac mae'n cyd-fynd â'n strategaeth o fuddsoddi mewn cwmnïau arloesol yn y sector dyfeisiau meddygol a diagnosteg, a nodwyd fel un o'r sectorau blaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth.



- Gwella manteision cynnig Graddedigion CCR i gynnwys gwasanaethau mentora busnes ar y cyd â GobaWelsh a lansio ymgyrch B2B â ffocws i helpu busnesau i recriwtio o fewn y sector Gwyddorau Bywyd, Technoleg a Gweithgynhyrchu.
- Cynhyrchu cyfres podlediad newydd gyda Newyddion Busnes Cymru yn cynnwys cyfres o gyfweiliadau gyda detholiad o uwch arweinwyr o bob rhan o'n cabinet Rhanbarthol, RTA, Partneriaeth Sgiliau, Partneriaeth Twf Economaidd a'n tîm ein hunain yn amlinellu cyfnod newydd o weithgarwch – o'r cyfnod clo i ehangu i'w gyflenwi - a'r meysydd ffocws allweddol ar draws y rhanbarth



- Lansio prosiect cronfa her newydd sbon gwerth £10m. Yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol y cabinet i'w achos busnes, ei nod yw cyfrannu at ailadeiladu ein heconomi leol a chynhyrchu atebion arloesol i broblemau cymdeithasol dwfn, megis datgarboneiddio trafnidiaeth a gwelliannau mewn gofal cymdeithasol. Bydd yn rhoi cyfleoedd i fusnesau bach yn ein heconomi sylfaenol, gan helpu i ysgogi adferiad cynaliadwy ôl-Covid ac adeiladu cymunedau cryf.

Am fwy o fanylion am yr holl ddatblygiadau hwn, ewch i <https://www.cardiffcapitalregion.wales/cy/newyddion/>.

Tasglu'r Cymoedd

Er y bydd y Tasglu yn parhau i weithio i gyflawni'r holl gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni, mae wedi bod yn bwysig addasu ac ymateb i effaith COVID-19.



Trawsnewid Trefi

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth Lee Waters (Cadeirydd Tasglu'r Cymoedd) £3.7m i gefnogi a gwella'r cynnig Trawsnewid Trefi yn rhanbarth y Cymoedd. Caiff cyllid ei dargedu'n benodol at ganol trefi llai yn rhanbarth y Cymoedd a bydd yn canolbwyntio ar ymateb i effaith y coronafeirws, gan gynnwys cefnogi cymunedau i weithio'n nes at eu cartrefi a theithio'n llesol. bydd cyhoeddiad am fanylion y cyllid hwn yn cael ei wneud yn yr hydref.

Grant Cartrefi Gwag

Neilltuodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth £10m ar gyfer Grant Cartrefi Gwag Tasglu'r Cymoedd ar draws ardal Tasglu'r Cymoedd. Mae'r cynllun hwn hefyd yn rhoi cyfle i gael mynediad i dai fforddiadwy, bydd yn dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, yn helpu i adfywio cymunedau, ac yn darparu mwy o ddewis a llety addas i breswylwyr.

Mae'r cynllun peilot yn cael ei gyflawni mewn dull dau gam. Daeth cam un yn

weithredol ym mis Hydref 2019 a bu'n rhedeg tan 31 Mawrth 2020. Cafodd dros 400 o geisiadau eu cymeradwyo yn ystod cam un.

Gweithiodd Tasglu'r Cymoedd gyda rhanddeiliaid i gryfhau'r cynllun ymhellach ar gyfer cam dau. Yn ogystal â dod â chartrefi'n ôl i ddefnydd, bydd y cynllun yn cefnogi'r agenda datgarboneiddio ymhellach drwy fanteision i ymgeiswyr am ddefnyddio mwy o fesurau effeithlonrwydd ynni ar eu heiddo. Bydd hefyd yn parhau i gefnogi a chryfhau'r economi sylfaenol, drwy sicrhau bod busnesau lleol yn ymgysylltu ac yn elwa ar y gwaith adnewyddu. Bydd cam dau hefyd yn caniatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd ar gyfer tai cymdeithasol.

Oherwydd argyfwng Covid 19, cafodd cyflwyno cam dau ei ohirio. Ail-agorodd y cynllun ar gyfer ceisiadau ddiwedd mis Gorffennaf 2020 ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi cofrestru. Fel mae pethau ar 11 Medi, mae bron i 250 o geisiadau'n cael eu prosesu fel rhan o gam dau, ar draws yr awdurdodau lleol hynny.



Y Camau Nesaf

Dros y 6 mis nesaf byddwn yn canolbwyntio ar werthuso effaith Tasglu'r Cymoedd ers 2016. Cyhoeddir diweddariad llawn o holl flaenoriaethau tasglu'r Cymoedd yn ddiweddarach yn yr hydref.

Digwyddiad gwybodaeth rhithwir cyntaf ESF

Cynhaliodd RET SE eu digwyddiad rhithwir cyntaf ar 29 Medi ac roeddent yn falch iawn (ac yn teimlo rhyddhad!) bod pob un wedi mynd yn dda a heb unrhyw broblemau technegol! Roedd y fformat ar-lein yn caniatáu i ni gynnwys mwy o gynrychiolwyr na'n digwyddiadau arferol, gan alluogi rheolwyr prosiect o brosiectau a ariannwyd gan ERDF ac ESF i fod yn bresennol. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn gallu dethol y sesiynau briffio o'u dewis drwy gydol y dydd, a chael cyfle i ofyn cwestiynau i'r cyflwynwyr.

Dyma'r sesiynau a oedd ar gael a'r cyflwynwyr:

- Diweddariad WEFO: Sue Price, WEFO
- Diweddariad ar y Cynllun Cyflogadwyedd: Edwyn Williams a Louise Brown, Llywodraeth Cymru

- Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru: Rachel Garside – Jones ac Alison Sandford, WEFO
- Diweddariad ar Raglen Gwaith a Iechyd Cymru: Drew Smith, Remploi
- Diweddariad y Fargen Ddinesig a'r Bwrdd Sgiliau: Leigh Hughes, Bwrdd Sgiliau CCR
- Effaith bosibl COVID-19 yng Nghymru a'r Mynegai Cyfleoedd Ieuenctid: David Hagendyk, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (LWI)
- Diweddariad ar y Fargen Ddinesig: Nic Sommerville – Swyddfa Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Y Brifysgol Agored: Sarah Roberts, Y Brifysgol Agored

Canolbwyntiodd y cyflwynwyr eu sesiynau briffio ar sut mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a pha gamau sydd ar y gweill i helpu'r adferiad. Byddwn yn cynnig Digwyddiad Gwybodaeth arall yn 2021.


Parc Rhanbarthol y Cymoedd



Lansiwyd [gwefan Parc Rhanbarthol newydd y Cymoedd](#) ddiwedd mis Awst. Mae trigolion, ymwelwyr a busnesau lleol bellach yn gallu cael gwybod mwy am yr hyn y gallant ei weld a'i wneud ar draws y Cymoedd.

Dywedodd Phil Lewis sy'n arwain ar Barc Rhanbarthol y Cymoedd: "Gan ddefnyddio dull cymoedd cyfan, mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yma i hyrwyddo a dathlu adfer tirwedd ein cymoedd, gan sicrhau ein bod yn dwyn ynghyd iechyd y tir, y bobl a'r economi ym mhopeth a wnawn. Bydd y wefan newydd hon yn ein helpu i wneud hynny."

Mae'r wefan newydd yn cynnwys map o'r rhanbarth gyda gwybodaeth wedi ei darparu ar safleoedd y Porth Darganfod sydd wedyn yn cysylltu â phrif wefan y safle perthnasol. Yn ogystal â gweithgareddau a digwyddiadau, bydd cyfleoedd gwirfoddoli hefyd yn cael eu rhestru. Yn ogystal â hyrwyddo'r Cymoedd fel cyrchfan, mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd hefyd yn cynnwys annog partneriaid i weithio tuag at arferion gorau ym maes rheoli tirweddau er mwyn helpu i wella bioamrywiaeth.



Interreg NWE

Bydd [Interreg NWE yn lansio ei ail alwad am fentrau cyfalafu ganol mis Hydref 2020](#). Mae "Gwneud y gorau o effaith prosiect" yn

targedu prosiectau sy'n bodoli eisoes sydd â sail gadarn ar gyfer gweithgareddau ychwanegol a lle mae parhau i gydweithredu yn dod â gwerth ychwanegol sylweddol.

Newyddion prosiect ERDF: datblygiadau isadeiledd RhCT



Coed Trelái

Nod y prosiect a ariennir gan ERDF yng Nghoed Trelái yw cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddi mewn seilwaith, helpu i ysgogi twf a darparu gwell darpariaeth fusnes ar safle cyflogaeth strategol. Bydd hyn yn gatalydd ar gyfer datblygu a buddsoddi ymhellach ar y safle hwn a'r cyffiniau.

Mae contractwyr yn parhau i wneud cynnydd cyson ar y safle. Mae cladin y waliau allanol bron wedi'i gwblhau ac mae'r system ddraenio wedi'i chwblhau, gyda dim ond cysylltiad â draeniau'r ACO ar ôl i'w wneud. Mae llawr y prif warws bellach yn ei le, gyda'r waliau bloc mewnol bron wedi'u gorffen. Mae strwythur siafft y lifft wedi'i godi yn barod i osod y lifftiau. Mae'r muriau llenni gwydrog, ar y swyddfeydd blaen a mynedfa'r adeilad, yn dod ymlaen yn dda ac mae waliau styd mewnol yn cael eu codi, gyda'r gwaith M&E cychwynnol yn digwydd hefyd. Mae rhaglen adeiladu wedi'i diweddarau yn amcanu y bydd yr adeilad yn cael ei drosglwyddo ar 7 Rhagfyr 2020.

Llys Cadwyn

Llys Cadwyn yw prif brosiect adfywio Cyngor Rhondda Cynon Taf, wedi'i leoli ger

y fynedfa ogleddol i Ganol Tref Pontypridd ar gyn safle hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf.

Mae'r datblygiad cyffrous hwn yn dangos uchelgais y Cyngor i adfywio'r dref drwy gymryd rheolaeth dros safleoedd ac adeiladau gwag neu adfeiliedig allweddol a denu cannoedd o swyddi, cynyddu nifer yr ymwelwyr a chreu amgylchedd lle mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae.

Mae'r datblygiad 14,693m² wedi cael cymorth ariannol gan ERDF drwy Raglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol Llywodraeth Cymru.

Mae'r datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys tri adeilad ac mae dau ohonynt yn swyddfeydd Gradd A yn bennaf gydag unedau caffi/bwyta i'w gosod ar y lloriau gwaelod ac mae'r trydydd ym mhen gogleddol y safle sy'n Hwb Cymunedol sy'n cynnwys llyfrgell ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif, mynediad at wasanaethau'r Cyngor, cyfleusterau cymunedol, campfa/stiwdios hamdden a chaffi o'r radd flaenaf. Mae'r datblygiad hefyd yn cynnwys dwy stryd newydd i gerddwyr wedi'u tirlunio a rhodfa glan yr afon newydd uwchben man parcio ac ystafelloedd pŵer ar gyfer tai islawr.



Newyddion prosiect ERDF: unedau diwydiannol newydd ym Mwrdeistref Caerffili.

Trindod o adeiladau diwydiannol fydd yn dod â busnesau newydd i Rymni



Mae gwaith safle bellach ar y gweill yn un o ddatblygiadau busnes newydd cyffrous Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Llys y Fedwen Arian, Ystâd Ddiwydiannol y Lawntiau yn Rymni. Dim ond 2 filltir i'r de o'r A465, ffordd Blaenau'r Cymoedd, gyda chysylltiadau rhagorol â'r M4 a dim ond awr o daith o'r M50. Mae Gorsaf Reilffordd Rymni yn cysylltu'n uniongyrchol â Chanol Caerdydd gyda'r daith yn cymryd awr.

Bydd y safle, lle mae nifer o unedau yn bodoli eisoes, yn croesawu tri adeilad newydd gyda

phymtheg uned unigol. Mae unedau ar gael i'w rhentu ar brydles gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a byddant yn cynnwys wyth uned 50m², pedair uned 75m² a thair uned 98m². Rhagwelir y bydd yr unedau ar gael i'w defnyddio erbyn diwedd 2020.

Bydd rhagor o wybodaeth am yr unedau busnes o ansawdd uchel yn cael ei rhoi ar Wefan Eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar ddiwedd y flwyddyn, ynghyd â gwybodaeth am rentu a gellir cyflwyno datganiadau o ddiddordeb bryd hynny.

Mae'r cwmni adeiladu a pheirianeg sifil o Gymru, EnCon Construction Cyf, wedi cael ei gomisiynu i ymestyn y tir presennol yn Rymni a'u troi'n unedau ffatrioedd diwydiant ysgafn o ansawdd uchel fel rhan o'r buddsoddiad mewn seilwaith yn rhanbarth y De-ddwyrain. Mae'r prosiect hwn wedi'i wneud yn bosibl diolch i gyllid gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac ERDF drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect gwerth **£2.9m** yn hwb gwerthfawr i'r economi leol gyda'r posibilrwydd o gyflogaeth i bobl leol.

I weld yr eiddo sydd ar gael ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, [ewch i wefan eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#). Cofrestrwch ar-lein am negeseuon e-bost awtomatig i'ch hysbysu pan fydd eiddo newydd yn cael ei ychwanegu.



Newyddion prosiect ERDF: AgorIP

Mae'r Prosiect AgorIP sydd wedi helpu economi ac arloesedd Gorllewin Cymru i ffynnu dros y pedair blynedd diwethaf wedi'i ymestyn i fod er budd Cymru gyfan, gyda chyfanswm buddsoddiad o dros £20m.

Daw AgorIP ag academyddion, clinigwyr a busnesau at ei gilydd i arloesi ymchwil i dechnolegau blaengar a sbarduno llwyddiant masnachol gyda chefnogaeth Prifysgol Abertawe, a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Ers lansio'r Prosiect AgorIP, mae'r Tîm sy'n gweithio yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys Gogledd Cymru, wedi cynorthwyo dros 200 o gyfleoedd; wedi helpu i greu swyddi, i ddiogelu Eiddo Deallusol (IP) a dod ag arloesedd i'r farchnad. Mae'r Prosiect hefyd wedi helpu cwmnïau i allgynhyrchu o Brifysgol Abertawe drwy sicrhau buddsoddiadau preifat.

O'r rhain, mae tua hanner wedi bod yn gysylltiedig ag iechyd a lles, sy'n mynd tuag at nod cyffredinol AgorIP o wella iechyd, lles ac economi Cymru gyfan.

Yn ogystal â gweithio gydag academyddion a busnesau, mae'r Prosiect AgorIP yn gweithio'n agos gyda GIG Cymru i ddod o hyd i arloesedd yn uniongyrchol o'r GIG a all wella technolegau a meddygaeth sy'n bodoli eisoes.

Ar hyn o bryd mae gan y Prosiect dri secondai sy'n gweithio o fewn Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Betsi Cadwaladr i chwilio am y rhain ar ran AgorIP.

Mae AgorIP wedi helpu i ddod ag amrywiaeth o arloesedd i'r farchnad; gan gynnwys cynhyrchu collagen newydd, beiciau mynydd sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, arloesi wrth ddod â realiti rhithwir i ystafelloedd dosbarth, bariau maeth



gan ddefnyddio gwymon o ffynonellau lleol yng ngogledd Cymru, gorchuddion wyneb amddiffynnol newydd mewn ymateb i argyfwng Covid-19, a gorchuddion metel i enwi ond rhai.

Mae'r estyniad yn golygu y bydd y Prosiect yn rhedeg tan fis Mehefin 2023, gyda chyllid o fwy na £15m yn cael ei neilltuo i orllewin Cymru, a bron i £5m wedi'i neilltuo i ddwyrain y wlad diolch i Brifysgol Abertawe, Llywodraeth Cymru a chronfeydd yr UE.

Meddai'r Gweinidog Iechyd Vaughan Gething: "Mae'r prosiect AgorIP yn llawn enghreifftiau lle mae gwyddoniaeth a gofal iechyd yn cydweithio ar flaen y gad ym maes arloesi clinigol.

"Rwy'n falch y gallwn barhau i gefnogi'r GIG i weithio'n hyderus gyda phartneriaid prifysgol a diwydiant, gan gysylltu gwell technolegau a gwasanaethau iechyd â chyfleoedd twf economaidd yng Nghymru."

Dywedodd Ceri Jones, Cyfarwyddwr Dros Dro AgorIP: "Rydym wrth ein bodd gyda'r buddsoddiad ychwanegol i gefnogi ehangu AgorIP yn y Gorllewin a'r Cymoedd a hefyd twf ein darpariaeth i'r Dde-ddwyrain.

"Mae'n deyrnged i dîm gweithgar y Prosiect ym Mhrifysgol Abertawe a gyda'r byrddau iechyd, ein bod wedi sicrhau'r buddsoddiad pellach hwn, a fydd yn ein galluogi i sicrhau effeithiau ac allbynnau gwerth llawer mwy er budd datblygu ymchwil prifysgolion, ymchwil diwydiannol ac ymchwil y GIG yng Nghymru."